**Y Pwyllgor Diwylliant CC16-02 p3**

Dyddiad: 23 Hydref 2002

Amser: 9.00am - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

TEITL: Y GYLLIDEB - CYNIGION TERFYNOL

**DIBEN**

Cafodd y gyllideb ddrafft ei thrafod mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar 15 Hydref 2002. Mae'r papur hwn yn egluro sut bydd y gyllideb ddrafft yn effeithio ar y portffolio diwylliant.

1. Trafodwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn y cyfarfod ar 19 Mehefin. Dywedais bryd hynny, mai yn fy marn i, prif flaenoriaethau ar gyfer y cylch cynllunio cyllideb hwn oedd:

**Cefnogaeth i'r Iaith Gymraeg**

Cymryd camau i chwyldroi natur a maint y gefnogaeth a roddir i'r Gymraeg gan Lywodraeth y Cynulliad yng ngoleuni adolygiad y Pwyllgor Diwylliant.

**Creative Future – Cymru Greadigol**

Sefydlu cronfa newydd "Buddsoddi mewn Cymru Greadigol" fel ffordd o ganolbwyntio ar wireddu ymrwymiadau Cymru Greadigol, hynny drwy'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym maes diwylliant, awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad.

Bydd y gronfa yn cael ei threialu'r flwyddyn ariannol hon.

**Strategaeth Ddigwyddiadau ar gyfer Cymru**

Datblygu Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol ar gyfer Cymru i ddatblygu'r enw da sydd eisoes gan Gymru am gynnal digwyddiadau megis Cwpan Rygbi'r Byd, Gwyl Lenyddiaeth y

Gelli ac ati; i sicrhau llwyddiant digwyddiadau yn y dyfodol e.e. Cwpan Ryder 2010; i ystyried pa ddigwyddiadau eraill y gellid gwneud cais ar eu cyfer neu y gellid eu cefnogi ac i sicrhau bod Cymru'n elwa i'r eithaf yn sgil dod â digwyddiadau i Gymru.

**Strwythur Strategol ac Ymgynghorol ar gyfer Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai**

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, sefydlu'r strwythur strategol ac ymgynghorol newydd ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai.

**Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru**

Datblygu partneriaeth Llywodraeth y Cynulliad gyda Choleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru i wireddu blaenoriaethau Cymru Greadigol ym myd addysg a phroffesiynau'r celfyddydau perfformio.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

Gweithredu cynigion manwl ar gyfer rhoi mwy o gymorth ariannol i gefnogi rhaglenni gwaith yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.

**Athrofa Chwaraeon Cymru**

Ystyried cynigion a ddatblygwyd ar gyfer gwella Athrofa Chwaraeon Cymru.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Mae'r Comisiwn wedi gwneud cais am gynnydd yn 2003/4 i barhau i ddatblygu ei brosiect TG.

2. Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ym mis Mehefin ysgrifennodd y Cadeirydd ataf ar 3 Gorffennaf yn cadarnhau'r blaenoriaethau a nodir yn 1 uchod ac yn nodi meysydd y dymuna'r Pwyllgor eu cefnogi, fel a ganlyn:

- Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, gyda'r pwyslais ar weithgareddau gwyddonol ac nid ei botensial fel atyniad i dwristiaid yn unig.
- Cymhorthdal diwylliannol tuag at dâl mynediad ysgolion i fannau diwylliannol sydd mewn dwylo preifat yng Nghymru.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer cymunedau, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd difreintiedig, ac i bobl ifanc gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.
- Mwy o gydweithio gydag awdurdodau lleol.

- Cefnogi prosiectau coffáu/dathlu cymunedol.
- Dosbarthu arian yn gytbwys rhwng y rhanbarthau yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor hefyd am dynnu sylw at gais tebygol am adnoddau ar gyfer chwaraeon yn dilyn ei adolygiad.

3. "**Buddsoddi yn Ein Dyfodol Creadigol" - y Gronfa Ddiwylliannol newydd.**

Rwy'n gwybod bod y Pwyllgor yn rhannu'm gwerthfawrogiad o'r adnodau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Rwy'n falch iawn bod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2003/04 - 2005/06 yn parhau i gefnogi'r celfyddydau a diwylliant, gyda chynnydd o 16.5% yn yr arian ar gyfer 2003/04. Mae'r cynnydd hyd yn oed yn fwy ar gyfer y blynyddoedd dilynnol.

Rwyf wedi dechrau ar ffordd newydd ac arloesol o ariannu diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cefnogi fy mwriad, sy'n symleiddio cyllidebau diwylliant Llywodraeth y Cynulliad gan roi hyblygrwydd newydd wrth i ni roi'r mesurau tymor hir i gyflwyno'r blaenoriaethau a nodir yn Creative Future: Cymru Greadigol ar waith: Creative Future – Cymru Greadigol.

Mae'r gronfa newydd yn uno cyllidebau cyfalaf a rhaglenni'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym maes diwylliant i greu un gronfa newydd. Bydd £46.8 miliwn yn y gronfa yn 2003/04 a bydd yn codi i £62.3 miliwn yn 2005/06. Golyga hyn y bydd £45.5 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer diwylliant yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Nid yw'r cynnydd hwn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru na chyllid i ddarparu'r rhaglenni ar gyfer cynnal Cwpan Ryder yn 2010. Cyfanswm y cynnydd yw £56.3 miliwn dros gyfnod o dair blynedd. Mae hwn yn swm sylweddol i fynd i'r afael gydag arddeliad â'r blaenoriaethau strategol a nodir yn Cymru Greadigol.

Yr iaith Gymraeg fydd fy mhrif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod. Ar ôl cyhoeddi "Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future" rwy'n bwriadu buddsoddi dros £16 miliwn o arian newydd o'r Gronfa Ddiwylliant i ddatblygu'r Gymraeg dros y tair blynedd nesaf. Mae hwn yn gynnydd sylweddol a bydd yn sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'n polisïau.

Gallaf hefyd fynd â'r blaenoriaethau eraill a nodir yn 1 uchod yn eu blaen yn sylweddol ynghyd â llawer o'r blaenoriaethau eraill a nodwyd gan y Pwyllgor yn 2 uchod. Byddaf yn ystyried sut caiff y gronfa ddiwylliant ei dosbarthu dros yr wythnosau nesaf. Caiff y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wybod pa ran fydd ganddynt i'w chwarae i fynd â'r blaenoriaethau yn eu blaen yn eu cylch gorchwyl blynyddol, er y byddaf yn cynnal trafodaethau gyda nhw cyn hynny. Byddaf hefyd yn sicrhau bod y Pwyllgor hwn yn cael gwybod y manylion diweddaraf am hynt y Gronfa Ddiwylliant mewn adroddiadau rheolaidd. Fy mlaenoriaethau yw'r Iaith Gymraeg, chwaraeon a'r celfyddydau.

Er mwyn bod yn hollol glir, dylwn hefyd ddweud bod nifer o brosiectau Diwylliannol arwyddocaol nad ydynt wedi'u nodi yn y Gyllideb ond bod arian ar gael ar eu cyfer trwy Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys costau cyfalaf adeiladu Canolfan y Mileniwm a grant i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, sydd bellach wedi derbyn arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ymddiriedolwyr yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ar y cymal nesaf, y partneriaid sy'n hyrwyddo cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant 2008; a gyda'r Cyngor Chwaraeon - yng nghyd-destun ei Adolygiad Pum Mlynedd - ar gynlluniau i adnewyddu Athrofa Chwaraeon Cymru Mae'r Gweinidog Cyllid wedi dweud y bydd o bosib yn dod yn ôl at y rhain yn y gyllideb derfynol neu'r gyllideb ategol gwanwyn nesaf yn dibynnu ar y datblygiadau.

Yn olaf, o ran blaenoriaethau'r Pwyllgor y llynedd, hoffwn roi'r diweddaraf i chi ar ddatblygu Sefydliad Theatr Ryngwladol yng Nghymru. Byddwch fel Pwyllgor yn cofio i £25,000 gael ei glustnodi yn ystod y flwyddyn i lunio achos busnes manwl, ac rydych wedi gweld yr adroddiad interim. Ar sail yr adroddiad hwnnw nid oedd gofyn i mi ddarparu mwy o arian eleni, ond rwyf yn disgwyl rhagor o fanylion gan y Sefydliad Theatr Ryngwladol yng Nghymru faes o law ynghyd ag achos busnes llawn a fydd yn caniatáu i mi ystyried potensial y datblygiad hwn yn y tymor hir.